

Dathlu yng Nghaersalem



Roedd bore Sul 9 Mai 2016 yn fore o ddatlu yn Eglwys Caersalem, Pontyberem pan dderbyniwyd pedwar aelod ifanc newydd gan y Gweinidog y Parchg Emlyn Dole. Yn llawen derbyniwyd Elen Jane, Adam Bowen, Sara Daniels ac Owain Daniels yn gyflawn aelodau o eglwys Iesu Grist. Pob bendith iddynt.

PRINDER AFFWYSOL GWEINYDDESAU

Dyma oedd y prif bwnc trafod yng Nghwrdd Chwarter Llŷn a gynhaliwyd yn Hebron, Llangwnadl. Cyfarfu'r Cwrdd Chwarter yno ar wahoddiad caredig yr Eglwys ar 4ydd Ebrill. Cadeiriwyd gan Mr. Dafydd O. Roberts, Trefor, Mrs. Gwenda Roberts, Hebron, Llangwnadl, oedd yn cyfeilio a hithau hefyd a gymrodd at y rhannau arweiniol.

Wrth agor y cyfarfod cyfeiriodd y cadeirydd at farwolaethau Mrs. Brenda Jones Roberts, a fu am flynyddoedd yn Ysgrifennydd Eglwys Salem, y Ffôr, cyn dirwyn yr achos i ben yno, a Miss Ellen Ann Griffiths, a fu'n ddiacones yno.

Anerchiad

Traddodwyd yr anerchiad gan y Cynghorydd W. Gareth Roberts, Aberdaron. Siaradodd yn feistrolgar am faes ei gyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd sef, Oedolion, Iechyd a Llesiant. Cyfeiriodd at y newidiadau mawr a oedd ar ddod yn y maes hwnnw. Rhoes



Y Cynghorydd
W. Gareth
Roberts

enghreifftiau o'i brofiad ym myd iechyd, yr ysbytai a gofal am gartrefi. Roedd prinder affwysol am weinyddesau cymwys. Bu'n siarad am gyfeillion ag anableddau dysgu. Cafwyd cyfle i'w holi. Diolchwyd yn gynnes am ei neges a'i arweiniad, a dymunwyd yn dda iddo.

Materion yn codi o'r Cofnodion:

Gwerthiant Capel Salem, y Ffôr, a'r Tŷ Capel. Adroddwyd bod y trefniant i ryddhau ymddiriedolwyr y Ffôr o'u cyfrifoldebau a phenodi ymddiriedolwyr dros dro o'r Cyfundeb mewn llaw, a bod yr eiddo yn y Ffôr bellach wedi ei yswirio yn enw'r Cyfundeb. Parhau heb ei werthu yr oedd yr eiddo. Mynegwyd anesmwythyd am yr oedi hir cyn gwerthu, a dymunwyd bod Pwyllgor Gwaith y Cyfundeb yn cyfarfod i ystyried y sefyllfa.

Cyngor Undeb yr Annibynwyr

Cafwyd adroddiad llawn, cynhwysfawr a diddorol o gyfarfyddiad Cyngor Undeb yr Annibynwyr a'i Adrannau



Y Parchg
Glenys Jones

Estyn llaw i helpu eraill



Bob blwyddyn mae'n arferiad gan Lywydd Eglwys Cymraeg Pontarddulais a'r Hendy i drefnu ymdrech arbennig er mwyn codi arian tuag at elusen o'i dewis. Y Llywydd eleni yw Mrs Marie-Lynne Jones Capel Hope-Siloh a'r elusen a ddewiswyd ganddi oedd y Banc Bwyd lleol. Mae'n syndod meddwl fod angen Banc Bwyd heddiw, ond mae'n debyg fod y galw yn cynyddu yn flynyddol ac mae'n debyg i 85,000 o barseili bwyd gael eu dosbarthu yng Nghymru'r llynedd. Braf oedd gweld y festri fawr yn llawn a phob capel wedi cefnogi drwy gael stondin yn gwerthu gwahanol nwyddau.

Agorwyd y noson gan Mr Garry Owen aelod adnabyddus iawn o Capel Hope-Siloh. Cafwyd adloniant wedi'r arwerthiant gan rai o blant ac ieuencid yr eglwys, ac roedd yn bleser gwrando ar eu cyfraniadau. Cafwyd Ymdrech Arbennig buddiol iawn - braf oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd i gefnogi'r apêl ac i helpu teuluoedd anghenus ein hardal.

gwahanol yn dilyn ei gyfarfyddiad yng Ngregynog gan y Parchg Glenys Jones. Diolchwyd yn gynnes iddi.

Swyddog Cynnal ac Adnoddau'r Gogledd

Adroddodd y Parchg Casi M. Jones, Swyddog Cynnal ac Adnoddau'r Gogledd, am y cylch eglwys yn y Cyfundeb y bu mewn cyswllt ag ef. Byddai'n dda ganddi ymestyn y gwaith i gylchoedd eraill o eglwys yn y Cyfundeb hefyd.

Cwrdd Chwarter nesaf

Bydd y Cwrdd Chwarter nesaf ym Maesyneuadd, Trefor ar Nos Lun, Gorffennaf 4, 2016. Y siaradwr gwadd fydd Mr Dafydd O. Roberts, Trefor. Yno hefyd bydd Mr Trefor W. Jones, Chwilog, yn trosglwyddo cadeiryddiaeth y Cyfundeb i'w olynydd, Mr Dafydd O. Roberts. Yr oedd cyfeillion Hebron, Llangwnadl, wedi paratoi paned a lluniaeth i bawb o'r cynrychiolwyr.

Ioan W. Gruffydd,
Ysgrifennydd y Cyfundeb

DUW YW'R BROBLEM!

Enwau Capeli

Yn Llandudno, un capel Cymraeg sy' gyda ni mwyach i addoli ynddo, ond nid yw hynny yn golygu ein bod wedi anghofio enwau capeli Cymraeg eraill y dref. Yr oedd gan y rhan fwyaf ohonynt enwau Beiblaidd ac eithrio capel yr Annibynwyr, sef Deganwy Avenue. Enwau eraill capeli Cymraeg Llandudno oedd Bethania, Ebeneser, y Tabernacl a Seilo, ond bellach, rydym yn addoli yng nghapel Seilo yn unig, ac yn cael blas a bendith wrth wneud hynny. Roedd yna fan cysegredig o'r enw Seilo yn Israel hefyd yng nghyfnod yr Hen Destament. Yno yr oedd Samuel yn fachgen ifanc pan glywodd un noson lais Duw yn galw arno, ac yntau yn ateb, "Llefara Arglwydd, oherwydd y mae dy was yn clywed." Felly, ystyr Seilo yw 'man cysegredig' i gyfarfod â Duw.

Capel Emaniwel

Enw ar gapel sy'n apelio'n fawr ataf yw'r gair Hebraeg 'Emaniwel', a'i ystyr yw 'Duw gyda ni'. Nid yw'n enw diarth i ni



Y Parchg John Lewis Jones

yn Llandudno gan ei fod ar un o gapeli Saesneg y dref. Y mae'r gair 'Emaniwel' yn treiddio i galon yr Efengyl sy'n cyhoeddi mai Duw gyda ni yw Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist. Yn arwyddocaol iawn, mae Mathew yn ein hatgoffa o hyn ar ddechrau ei Efengyl ac ar ei diwedd hi. Yn y bennod gyntaf, y mae Joseff yn derbyn y newydd syfrdanol, 'Wele, bydd y wryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab, a gelwir ef Emaniwel, hynny yw, o'i gyfieithu, 'Y mae Duw gyda ni.' Ac yn y bennod olaf, mae Mathew yn dyfynnu addewid oesol Iesu Grist i'w ddilynwyr, "Ac wele, yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd."

'Duw yw'r broblem'

Yn ddiweddar, cefais gyfle i ddarllen llyfr Aled Jones Williams a Cynog Dafis dan y teitl 'Duw yw'r Broblem.' Fel yr awgryma'r teitl, y mae'n llyfr heriol iawn ac yn galw arnom i ymysgwyr o hen rigolau crefydd, sydd yn eu tyb hwy, wedi goroesi eu defnyddioldeb ers blynyddoedd maith. Mae'n llyfr sy'n datgelu ffrwyth myfyrdod caled, ond y mae ei deitl yn peri i mi deimlo'n anesmwyth iawn. Dichon fod Duw yn broblem i lawer o bobl ein

hoes, ac ni ddylem eu cymryd yn ysgafn. Y mae dirnad bodolaeth Duw yn anodd ei amgyffred heb sôn ei ddeall. Ymhellach, rydym yn byw mewn cymdeithas seciwlar sy'n mynnu pwyso a mesur popeth yn wyddonol cyn ei dderbyn, ac y mae hyn yn gadael ei ôl yn drwm arnom. Ond er hynny, onid yw profiad ein bywyd o hyd yn dweud wrthym fod mwy i fywyd na mesuriadau meddwl dyn a'r hyn a welwn â'n llygaid yn y byd hwn?

Duw gyda ni yn Iesu Grist

Dywed y Beibl wrthym nad yw dyn wedi gweld Duw erioed, ond newyddion da'r Efengyl yw bod Duw wedi ei ddatguddio ei hun i ni ym mherson yr Arglwydd Iesu Grist. Ymhellach, y mae pwy bynnag ohonom sy'n ymateb i'r hyn a wnaeth drosom ar y groes a'i atgyfodiad gogoneddus yn sylweddoli nad ydym mwyach ar ben ein hunain yn y byd cythryblus hwn, ond yng nghwmni'r Crist anweledig sy'n Geidwad ac yn Arglwydd ein bywyd. Dyma pam y dywedwn fod Iesu yn Dduw gyda ni yn Iesu Grist. Rwy'n cloi'r myfyrdod gydag emyn Elfed;

*At bwy yr awn, O! Fab y Dyn,
At bwy ond atat Ti dy hun?
I ddwys gwestiynau dynol-ryw
Tydi, Tydi, yw ateb Duw.*

John Lewis Jones

Morgan Rhys, 1716-1779 Emynydd ac athro cylchynol

O! agor fy llygaid i weled
Dirgelwch dy arfaeth a'th air;
Mae'n well i mi gyfraith dy enau
Na miloedd o arian ac aur:
Y ddaear â'n dân, a'i thrysorau,
Ond geiriau fy Nuw fydd yr un;
Y bywyd tragwyddol yw 'nabod
Fy Mhrynwr yn Dduw ac yn ddyd.

Pennill o waith Morgan Rhys.

*Dau gan mlynedd yn ôl i fis Ebrill eleni fe
anwyd, Morgan Rhys. Dyma beth o'i
hanes.*

Dyn dirgel y Diwygiad Methodistaidd oedd Morgan Rhys oherwydd ychydig iawn a wyddom yn ffeithiol amdano. Mae llawer o'r wybodaeth sydd gennym un ai yn cael ei dybio neu wedi ei drosglwyddo ar dafod leferydd. Eto, fel emynydd saif ymhlith y pwysicaf a'r galluocaf yn hanes ein hemynyddiaeth. Mentrodd rhai ddweud mai ef oedd emynydd mwyaf ein cenedl.

Ganwyd yn ôl pob tebyg 1 Ebrill 1716 yn yr Efail-fach, Cil-y-cwm, rhyw 4 milltir o Lanyddyfri, Caerfyrddin, yn fab i Rhys ac Anne Lewis. Dywedir iddo ddod i greu wrth wrando ar Howell Harris yn pregethu ond nid oes unrhyw wybodaeth

hanesyddol i gadarnhau hynny. Gwyddom i sicrwydd iddo weithio fel athro cylchynol mewn rhannau o sir Gaerfyrddin a Cheredigion rhwng 1757 a 1775 oherwydd bod cyfeiriad ato yn y *Welch Piety*, adroddiad blynyddol yr ysgolion.

Llanfynydd

Ar ddiwedd ei oes yr oedd yn byw yng Nghwm Gwaun Hendy, Llanfynydd, a chladdwyd ef ym mynwent Llanfynydd ar 9 Awst 1779. Dengys ei ewyllys beth oedd yn wirioneddol bwysig iddo ar derfyn ei oes. Trwy'r ewyllys darparodd ar gyfer ei briod a'i berthnasau a gadawodd arian i weinidogion y Methodistaidd, yn eu plith Daniel Rowland, David Jones, Llangan, William Williams, Pantycelyn. Gadawodd hefyd roddion i'r seidatau yn Nantgaredig, Llansawel, Cil-y-cwm ac eraill.

Emynau

Yn ôl arfer beirdd ei oes ysgrifennodd farwnadau er cof am gyfeillion a fu farw. Canodd farwnad i'r Parchedigion Howel Davies, Lewis Lewis, Llanddeiniol a Mr Morgan Nathan, Llandeilo Fawr. Ond yr oedd ei arbenigedd a'i fawredd heb os yn

ei emynau godidog. Y casgliad cyntaf a gyhoeddwyd ganddo oedd *Golwg o Ben Nebo* (1755) a gynhwysai 11 o emynau. Yna, ymddangosodd cyfrol o 22 o emynau yn dwyn y teitl *Casgliad o Hymnau* ym 1760. Ail argraffwyd *Golwg o Ben Nebo* (1764) gyda 40 o emynau newydd ynddo. *Golwg ar y Byd hwn yn myned heibio* oedd enw'r casgliad newydd a gyhoeddodd ym 1767. Yn y 70au cyhoeddodd ddwy gyfrol arall sef *Golwg ar Ddinas Noddfa* (1770) a *Griddfannau'r Credadyn* (1772). Y mae ei emynau'n llawn o'r lleddf a'r llon, profiadau ysbrydol dwys a cheir yn fynych fynegiant o chwerwder pechod a melyster gras Duw yn Iesu Grist fel y mynegir yn y pennill hwn o'i eiddo.

Er i mi bechu yn ffaidd o'm mebyd hyd yn awr
Mil mwy yw dy drugaredd na'm holl bechodau mawr;
Mwy rhinwedd gwaed dy galon na'm ffaidd bechod cas
Dyfnach na damnedigaeth yw'th gadwedigol ras.

Ceir enghreifftiau o'i waith ym mhob casgliad o emynau Cymraeg ac y mae 11 ohonynt yn y gyfrol *Caneuon Ffydd*. Dywedodd H. Elvet Lewis fel hyn mewn rhagair i lyfr amdano, "Ei emynau yw ei gofiant a'i gofologfn."

Barn Annibynnol

Beth yw'r gwir?

Bu'r peledu ffeithiau, ffigurau ac ystadegau yn cwmpo arnom yn ddirugaredd yr wythnosau os nad y misoedd diwethaf ac maent nawr fel storom o genllysg. Faint ohonynt sy'n wir? Mae



Eurwen Richards

synnwyr cyffredin yn dweud nad gwirionedd yw'r cyfan ond beth a pha rai i greu? Bu'r addewidion yn llifo'n ddi-dor cyn yr etholiad, ond nawr yn yr wythnosau sy'n dilyn bydd y gwir yn cael ei ddatgelu, a llawer o'r addewidion yn cwmpo fel briwsion.

Diwydiant Perswâd

Mae ffyrdd anhygoel yn cael eu darganfod i drosglwyddo gwybodaeth, ond nid yw popeth yn iawn na'n llesol i ni. Cawn ein hannog i brofi a gweld os da yw, ond haws dweud na gwneud. Mae'r arfer llwyddiannus o werthu wedi tyfu i fod yn wyddoniaeth 'marchnata'. Dros y blynyddoedd bu'r siopwr llwyddiannus a dawn arbennig i berswadio pobl i brynu'r hyn nad oeddynt wir eisiau, ac mae'r diwydiant perswâd yn un hynod ddiddorol. Yn gynnar iawn yn fy ngyrfa ym myd bwyd, cefais fy hyfforddi pa ran o'r silffoedd yn yr archfarchnad oedd orau o ran gwerthiant ac elw.

Twyll Marchnata

Heb yn wybod i ni cawn ein hudo i wneud, i brynu, heb sylweddoli'r gwir. Daeth hwnnw'n amlwg yn ddiweddar pan ddarganfuwyd nad oedd y llysiâu, y cig, yn wir holl fwydydd ffres casgliad o 76 o fwydydd 'newydd' un o archfarchnadoedd mwyaf ac amlycaf y wlad wedi dod o ffermydd arbennig. Enwir y ffermydd ar flaen bob pecyn o datws, cig oen ac ati, a'r un pryd mae'r cwmni yn hawlio fod y bwydydd hyn oll wedi eu dewis yn arbennig iddynt hwy. Ond twyll marchnata yw'r cyfan. Enwau ffug yw'r ffermydd! Er hynny mynnai'r prif weithredwr nad ydynt yn twylllo neb, am fod tarddle'r bwydydd wedi ei gynnwys (mewn llythrennau mân) ar y pecyn.



Gweld y ffug

Bu mwy nag un archfarchnad (rhai sy'n llai o faint yng Nghymru) yn dilyn y modd yma o farchnata, ond daeth y twyll hwn i'r golwg am fod yr archfarchnad amlwg yma wedi gwneud cymaint o sbloet am eu 'ffermydd'. Mae'n ofynnol roi'r gwir darddle ar bob pecyn bwyd, ond yr hyn a wêl y prynwyr yn gyntaf yw'r ffug! Bu'r prif weithredwr wrthi'n ddygn yn cefnogo'r hyn a wnaethont am eu bod meddai, am leihau'r gwastraff bwyd sy'n digwydd ar y

fferm wrth ddefnyddio holl gynnyrch y fferm hwnnw. Gwir?

Stori Wahanol?

Mae pob garddwr yn gwybod nad yw pob taten, neu afal, yn tyfu'r un maint na'r foronen yr un siâp, ac wrth edrych o gylch y silffoedd bwyd hawdd yw bod yn sinigaid wrth ddarlawn honiadau'r prif weithredwr. Hawdd hefyd yw i'r sinigiaeth wreiddio'n ddyfnach yn ein bywydau. A dyna rwy'n ofni sydd wrth wraidd fod rhai yn gwrthod cyfrannu i elusen fel Cymorth Cristnogol. Mae'r hanesion, y lluniau yn dweud stori drist ond ar yr un pryd cawn ambell un yn dweud hawdd yw tynnu llun a dangos pobl mewn cyflwr difrifol, ond trowch y camera'r ffordd arall a chewch stori wahanol.

Y gwirionedd

Caf stori debyg am y Banc Fwyd, ond wedi bod yng nghanolfan Pen-y-bont ar Ogwr llawer i dro gyda chyfraniadau aelodau'r Tabernacl, gallaf ond rhannu fy mhrofiad o fod yno. Nid yw'n hawdd cyfaddef nad ydych yn gallu dod i ben â gofynion dyddiol, nad ydych yn gwybod y ffordd i goginio pryd o fwyd. Nid yw'n hawdd gorfod cysgu ar stepen drws neu mewn man all eich golchi i ffwrdd â'r llif. Y tristwch yw bod popeth wedi ei liwio â'r byd marchnata, byd sydd yn aml yn un ffug. Credaf fod dyletswydd arnom fel Cristnogion i fyw, i ddangos beth sy'n wir, bod yn barod i sefyll drosto, a bod yn barod i godi llais yn erbyn y ffug. Beth yw'r gwir? Crist ddywedodd 'fi yw'r gwirionedd a'r bywyd'. Nid ffug oedd lesu.

Eurwen Richards

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Ebenezer, Graigfechan

Yn ôl yr hen arfer (ers cyn cof erbyn hyn) cynhaliwyd ein Gŵyl Bregethu flynyddol ar nos Wener y Groglith yma ym mhen pellaf Dyffryn Clwyd yng Nghapel Ebenezer yr Annibynwyr, Graigfechan, ger Rhuthun. Ni'n siomwyd eto eleni gyda bron i lond Capel o wrandawyr o'r fro a'r dyffryn wedi ymgynnull ynghyd i gefnogi. Eleni ein gŵr gwadd oedd y Parchg Iwan


Llewelyn Jones, Porthmadog (gŵr sydd wedi bod gyda ni droeon o'r blaen ar yr ŵyl hon) a chafwyd ganddo bregeth fyrlymus a chofiadwy dros ben a hynny yn ei ddull arbennig ei hun. Gyda chynulleidfya cystal wedi dod ynghyd, pleser hefyd oedd cael cyfeilio i'r canu cynulleidfaol gan gloi'r addoliad yn orfoleddus gyda'r Emyr 'Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw' ar yr emyn dôn Trewen yn atsain yn ein cof.

Hanes y Cyrddau

Mae'r byd a'r ardal wedi newid cryn dipyn o'r dyddiau cynnar hynny o ddechrau'r ŵyl bregethu. Y cofnod cynharaf sydd gennym ar hyn o bryd yw'r cyrddau a gynhaliwyd yn 1887 gyda thri phregethwr gwadd y flywyddyn honno sef, y Parchg R. Roberts, Rhosllannerchrugog, y

Parchg T. Talwyn Phillips, y Bala a'r Parchg J. R. Jones, (Gerallt) Maentwrog. Yn ôl y cofnod cafwyd cynulleidfaoedd lluosog a phregethu effeithiol a gafaelgar trwy'r dydd. Erbyn 1900, dau bregethwr gwadd oedd yn gwasanaethu, sef y Parchg T. Eli Evans a'r Parchg Peter Price, Lerpwl Y flywyddyn honno roedd oedfaon trwy'r dydd a chynulleidfaoedd lluosog a phregethu grymus unwaith yn rhagor. Parhawyd y patrwm hwn (gyda dwy bregeth yn oedfa'r hwyr) hyd at 1998 pan bregethwyd y flywyddyn honno gan y Parchg Ieuan Davies, Caerdydd a'r Parchg Iwan Llewelyn Jones, Porthmadog. Ers 1999 un oedfa a hynny ar nos Wener y Groglith yw'r patrwm ac eleni wrth gwrs gyda'r Parchg Iwan Llewelyn Jones, Porthmadog yn gwasanaethu. Mae'n bleser cael dweud fod y gwreiddyn yn dal yn fyw yma ac mae'n rhaid diolch i'r holl ardalwyr am hynny. Diolchwn iddynt am bresenoli eu hunain gyda'r aelodau a'n pregethwyr gwadd ar Nos Wener y Groglith er mwyn addoli.

Gareth Lewis Jones



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
 Ffôn: 02920 490582
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
 Ffôn: 01766 513138
 E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
 Ffôn: 01267 232577 /
 0781 751 9039
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
 E-bost: undeb@annibynwyr.org

Dalier Sylw!

Cyhoeddi'r y Pedair Tudalen
 Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r
 Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr
 Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
 wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
 chynnwys y Pedair Tudalen.

Delweddau o Brotestaniaeth yn Ewrop

Yn nhref hanesyddol Wittenberg yn yr Almaen y cynhaliwyd Cynhadledd gan Gyngor Cenhadaeth Byd Eang (CWM) yn ystod mis Ebrill. Thema'r gynhadledd oedd *y Babell*, *y Deml*, a'r *Sgwâr Cyhoeddus*: ffyrdd gwahanol o ystyried neu ail-ddychmygu dyfodol Protestaniaeth yn Ewrop. Yr oedd cynrychiolaeth yno o blith Eglwys Bresbyteriaidd Cymru a'r Annibynwyr. Yr wythnos ddiwethaf, yn y *Tyst*, cafwyd crynodeb gan y Parchg Ddr Watcyn James o anerchiad y Parchg Ddr. Michael Moynagh, Wycliffe Hall, Rhydychen. Yr wythnos hon mae Alun Tudur yn rhoi crynodeb o ddarlith Dr. Stefan Paas, Vrije Universiteit Amsterdam (Prifysgol Rydd Amsterdam) a Theologische Universiteit Kampen (Prifysgol Ddiwinyddol Kampen).



Rhai o'r cynadleddwyr ar daith gerdded o gwmpas Wittenberg

Trosolwg

Darlith hanesyddol sylweddol a gafwyd gan Dr. Pass yn dwyn y teitl, *Trosolwg Hanesyddol o Fudiadau Adnewyddol - Historical Overview of Renewal Movements*. Yr oedd hon yn ddarlith eithriadol bwysig yn y gynhadledd gan ei bod yn rhoi'r holl ddarlithoedd a'r sesiynau trafod yng nghyd-destun hanesyddol y Diwygiad Protestannaidd. Roedd hyn yn allweddol mewn gwirionedd oherwydd fe roddai gyfeiriad i'n trafodaethau gan ein bod yn ceisio ail asesu'r Diwygiad Protestannaidd er mwyn gweld a oedd gwersi i ni heddiw yn enwedig yng nghyd-destun ein cenhadaeth.

Eglwysi Newydd

Fe barodd safiad Martin Luther yn erbyn yr Eglwys Gatholig Rufeinig i ffurfiau newydd o eglwysi ymddangos. Cyn hyn roedd yr Eglwys Gatholig Rufeinig wedi llwyddo i gynnwys neu i wastrodi unrhyw dueddiadau gwrthryfelgar a sectaraidd o'i mewn ond nawr nid oedd modd rhoi caead

ar eu piser. Canlyniad hyn oedd bod datblygiadau ar y cyrion wedi troi yn ganolfannau o fywyd ac egni ysbrydol newydd. Rhan amlaf yn hanes yr Eglwys Gristnogol ar y cyrion y ceir adnewyddiad ac nid yn y canol.

Pedwar Mudiad

Yn dilyn ei ragarweiniad canolbwyntiodd Dr. Paas ar bedwar mudiad adnewyddol a ddatblygodd yn sgil y Diwygiad Protestannaidd yn Ewrop.



Dr. Stefan Paas

1. Ailfeddydwyr (Anabaptism)

Nodwedd y mudiad hwn gan wrthwynebiad chwyrn i feddyddio babanod a chredent yn unig mewn bedydd credinwyr; gwelsant Ewrop fel maes cenhadol; roeddent yn disgwyl yn eiddgar am ail ddyfodiad yr Arglwydd Iesu ac yr oeddent yn efengylu'n frwdfrydig.

2. Bedyddwyr (17eg ganrif)

Datblygodd John Smyth eglwysyddiaeth gynulleidfaol oedd yn wahanol iawn i'r Eglwys Gatholig a'r Eglwys Lutheraidd. Yn ôl y patrwm hwn credinwyr yn unig oedd i fod yn aelodau o'r eglwys. Cyfrifoldeb pob eglwys unigol oedd ethol, cymeradwyo ac ordeinio ei gweinidog ei hun. Roedd yr addoliad i fod yn ysbrydol ac nid wedi ei gyfyngu i ffurfiau caeth rhagosodedig. Sefydlwyd yr eglwys Fedyddiedig gyntaf gan Thomas Helwys yn Spitalfields, Lloegr ym 1611. Yn yr eglwys honno pwysleisiwyd bedydd credinwyr ac nid oedd y llywodraeth i ymyrryd o gwbl yng ngweinyddu'r eglwys. Roedd eglwys drefnus yn rhan o gynllun Duw er iachawdwriaeth ac yr oedd bod yn aelod o eglwys addas yn bwysig.

3. Pietistiaeth (17eg a 18fed ganrif)

Roedd nifer o fudiadau adnewyddol

Cristnogol ar hyd a lled Ewrop yn rhoi pwyslais newydd ar ffydd personol yn Nuw yn hytrach na chydysniad mecanyddol i osodiadau athrawiaethol. Ymhlwg yn y mudiad pietistaidd roedd yr ymchwil am sancteiddrwydd; beirniadaeth chwyrn o'r "hen grefydd farw" a dealltwriaeth o'r byd fel lle oedd yn llawn temtasiynau a phechod. Cyhoeddwyd Pia Desideria (Awydd Duwiol) ym 1675 gan Phillipp Jakob Spener, llyfr pwysig oedd wedi llywio barn llawer. Ynddo pwysleisiwyd chwe pheth oedd yn hanfodol i fywyd eglwysig iach. 1. Dychwelyd at yr Ysgrythurau. 2. Yr angen i ffurfio celloedd bychan o leygwyr a fyddent yn ffynhonnell adnewyddiad ysbrydol. 3. Hyrwyddo bywydau o dduwioldeb gweithredol ymhlith Cristnogion. 4. Meithrin cariad tuag at anghredinwyr a hereticiaid yn hytrach na chwerwder. 5. Dylid cyfyngu'r weinidogaeth i ddynion sy'n Gristnogion. 6. Arweiniad ysbrydol i fyfyrwyr oedd yn hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth.

4. Methodistiaeth

Bwriad John Wesley (1703 - 1791) oedd diwygio'r Eglwys Anglicanaidd o'i mewn. Armin oedd ef ac fe bwysleisiai, sancteiddhad, duwioldeb a phrofiad personol o achubiaeth. Roedd y dulliau a ddefnyddiodd i genhadu a diwygio'r eglwys yn hyblyg ac yn cynnwys cyfuniad o fywiogrwydd a disgyblaeth.

Cymhwyso

Wrth gloi fe gymhwysodd Dr. Paas gyda rhai sylwadau am genhadu. Gwelwyd yn hanesyddol fod elfen genhadol yr eglwys i'w ganfod ar gyrion Cristnogaeth yn Ewrop. Gwnaeth y mudiadau newydd hyn genhadaeth yn rhywbeth canolog ym mywyd yr eglwys. Tanseliwyd yn llwyr y syniad traddodiadol o genedl Gristnogol a llwyddwyd i ysbrydoli Cristnogion cyffredin i osod cenhadaeth ynghanol bywyd y gynulleidfa. Fe'n heriodd fel cynrychiolwyr yr amrywiol eglwysi Cristnogol gyda'r geiriau hyn. "Wrth ystyried ein sefyllfa bresennol fel eglwysi yn Ewrop rhaid sylweddoli na ellir rheoli adnewyddiad ysbrydol heb ei ladd. Y mae adnewyddiad wrth natur yn achosi rhwygiadau. Er mwyn i adnewyddiad ddigwydd yn ein plith heddiw mae'n rhaid i ni dderbyn nad yw ein cenedloedd yn Ewrop yn rhai Cristnogol."

Alun Tudur